Robert Wilkinson

Yr wyf yn wreiddiol o Swydd Gaerlŷr, a fu'n gartref i mi nes i fi orffen fy ngradd gyntaf. Gradd mewn Amaethyddiaeth ym Mangor, Gogledd Cymru oedd hon. Tra mod i yno fe ddes i gysylltiad â'r Undeb Gristnogol a deuthum at ffydd. Ym Mangor hefyd y cyfarfûm â'r ferch sy nawr yn wraig i mi. Oddi yno symudais i Sutton Bonnington (rhan o Brifysgol Nottingham) ym 1994 i ddilyn cwrs PhD mewn ymbortheg moch.

Priodwyd fy ngwarig a mi yn St.Anne's Sutton Bonnington yn 1977 a'r flwyddyn ganlynol dechreuais weithio i ADAS (ar y pryd yn wasanaeth cynghori amaethyddol y llywodraeth). Yr oeddwn yn Gynghorydd Hwsmoniaeth Llaetheg ac yn y rôl honno fe'm symudwyd i'w swyddfa ardal yn Trawscoed, ger Aberystwyth yn 1983. Yn dilyn preifateiddio ADAS bûm yn Arolygwr Llaetheg ac yn y pendraw yn Uwch Arolygwr dros Gymru a'r Gororau, cyn ymddeol yn gynnar yn 2010 oherwydd ad-drefnu. Ers 2014 bûm yn Ddarllenwr yn gweithio yn ardaloedd gweinidogaethol Aberystwyth a Bro Padarn.